

Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 25 TACHWEDD 2019, yn Ystafell Gyfarfod y Ganolfan Ddelweddu.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair, heblaw am gofnod 28); Ms Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor (yn y Gadair, am gofnod 28); Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (heblaw am gofnod 28); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Mr George Ashworth; Mrs Samantha Blackie (trwy Skype); Dr Hazel Davey; Ms Anne Davies (trwy Skype, tan gofnod 35.4); Ms Meri Huws; Mr Tomos Ifan, Llywydd UMCA; Mr Richard John; y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd; Mr Ian MacEachern; Mr Dhan Ramnatsing, Llywydd UMABer (heblaw am gofnod 28); Ms Kath Williams; Yr Athro Syr Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Mrs Elinor Howells, Swyddog Cyfathrebu; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Mark Tweed; Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi) (ar gyfer cofnod 32.3); a Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (ar gyfer cofnod 36.1).

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ms Fiona Sharp.

21. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

Croesawyd y canlynol i'w cyfarfod cyntaf o'r Cyngor:

1. Heledd Davies, a oedd wedi'i phenodi yn gyfieithydd ar y pryd yn y Brifysgol. Diolchwyd i Rhys Huws am ei wasanaeth i'r sefydliad yn gyfieithydd ar y pryd ar ei liwt ei hun ers nifer o flynyddoedd; a
2. Mark Tweed, a oedd yn arsylwi ar y cyfarfod cyn dechrau ei gyfnod yn Aelod Annibynnol ar y corff llywodraethu ar 01 Ionawr 2020.

2. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw Elizabeth Harrison, myfyriwr ar ei thrydedd flwyddyn yn yr Ysgol Gelf.

3. Cadeiryddion Prifysgolion Cymru

Fel Cadeirydd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (CPC), bu Cadeirydd y Cyngor mewn cyflwyniad yr wythnos flaenorol ynglŷn â chanfyddiadau cychwynnol yr arolwg o drefniadau llywodraethu addysg uwch yng Nghymru, sy'n cael ei gynnal gan Gillian Camm. Pan fydd adroddiad terfynol yr adroddiad wedi'i gyhoeddi, cyflwynir copi i'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (LI&Ch) (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

4. Sesiwn Wybodaeth:

Cyn y cyfarfod ffurfiol, cafodd sesiwn wybodaeth ei chynnal i aelodau'r Cyngor ynglŷn ag addysg draws-wladol. Byddai fideo o'r sesiwn anffurfiol hon ar gael trwy safle SharePoint i'r aelodau nad oeddent yn gallu bod yno yn y bore (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

5. Cyfarfod anffurfiol o Aelodau Annibynnol

Cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol rhwng yr aelodau annibynnol a'r Is-Ganghellor cyn cyfarfod ffurfiol y Cyngor. Cafodd y materion a drafodwyd yn y cyfarfod anffurfiol eu crynhoi gan y Cadeirydd. Roedd y cwbl yn gysylltiedig ag eitemau i'w trafod yn y cyfarfod ffurfiol ac fe gaent eu hystyried ymhellach o dan yr eitem briodol ar yr agenda.

22. **GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Nodwyd y canlynol yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod. Barnwyd nad oedd angen i unrhyw aelod ymesgusodi yn ystod y trafodaethau ar yr adroddiadau dan sylw:

1. Mynegodd Ian MacEachern, un o Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn ac Aswariant Prifysgol Aberystwyth (AUPAS), fudd yn yr eitem 'Strategaeth Buddsoddi AUPAS';
2. Cafodd Richard John ei gyfarwyddo i gynrychioli Eglwys St Michael mewn trafodaethau â'r Brifysgol yng nghyswllt anghenion maes parcio i brosiect yr Hen Goleg; a
3. Mae Meri Huws yn un o Gyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

23. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2019 (COU1920-040).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

24. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1920-041).

NODWYD

Y diweddariadau a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

25. **PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-042).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y cafodd materion eu cymeradwyo gan yr aelodau trwy ohebiaeth.
2. Y materion a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd:
 1. ymateb arfaethedig y Brifysgol i ymgynghoriad ar ddiwygiadau i broses ymrwymiad sefydliadol y Cyngor Cyllido;
 2. drafft yr ymateb a gynigiwyd gan yr Is-Ganghellor i'r Cyngor Cyllido mewn ymateb i'r llythyr Arolwg Risg Sefydliadol a dderbyniwyd ym mis Medi 2019; a
 3. argymhelliad gan y Grŵp Graddau er Anrhydedd i roddi Cymrodoriaeth er Anrhydedd.

26. GOHEBIAETH

1. Ymgynghoriad ar ddatganiad sicrwydd ychwanegol i gyrff llywodraethol yn ymwneud ag ansawdd academiaidd

NODWYD

1. Ar 22 Tachwedd 2019, cyhoeddodd CCAUC gylchlythyr yn gwahodd ymatebion gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ynghylch datganiad sicrwydd ychwanegol i gyrff llywodraethol yn ymwneud ag ansawdd academiaidd.
2. Roedd y Brifysgol yn paratoi drafft o'i hymateb i'r Cyngor Cyllido. Byddai copi o'r ymateb yn cael ei rannu ag aelodau'r Cyngor cyn ei gyflwyno (**GWEITHREDU:** Pennaeth Datblygu Strategol).

27. ARGYFWNG HINSAWDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, a'r Cynghorwr ar faterion Amgylcheddol a Chynaliadwyedd (COU1920-060).

NODWYD

1. Yn ystod Diwrnod Encil y Cyngor ar 11 Hydref 2019, rhoddwyd cyflwyniad i'r aelodau ar weithgarwch y Brifysgol yng nghyswllt cynaliadwyedd amgylcheddol. Mae'r gweithgarwch hwn, sy'n cynnwys datblygiadau ers y diwrnod encil, yn golygu'n awr bod y sefydliad bellach mewn safle da i ystyried datgan Argyfwng Hinsawdd, a gwneud hynny mewn ffordd ystyrion oherwydd y gall ddangos tystiolaeth o'r camau sydd eisoes yn cael eu cymryd.
2. Yn ystod yr haf 2019 gwnaed dadansoddiad o fuddsoddiadau'r Brifysgol yr ymgymerwyd â hwy gan ymgynghorwyr buddsoddiadau'r sefydliad. Cyflwynwyd y dadansoddiad i'r Pwyllgor Buddsoddiadau ar 15 Tachwedd 2019. Roedd elfen ecwiti cyhoeddus y portffolio buddsoddi cyffredinol yn cynnwys cyswllt â chynhyrchwyr tanwydd ffosil, ac oherwydd hynny cymeradwyodd y Pwyllgor Buddsoddiadau drosglwyddo cyfran sylweddol o ddaliadau ecwiti cyhoeddus i gronfa a oedd yn benodol yn eithrio

buddsoddiadau tanwydd ffosil. Byddai'r portffolio buddsoddiadau'n cael ei adolygu ymhellach yn y cyd-destun hwn yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Buddsoddiadau.

3. Cydnabu'r aelodau bod y camau sy'n cael eu cymryd yng nghyswllt cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhai hirdymor, gan gynnwys ymrwymiad gwirfoddol y Brifysgol i darged o sero net o allyriadau carbon erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2030-31. Byddai cyhoeddi 'Argyfwng Hinsawdd' felly yn gam amlwg ar y daith hon.
4. Roedd aelodau o gangen Aberystwyth o 'Extinction Rebellion' yn cynnal gwrthdystiad i gyd-daro â'r adeg yr oedd yr adroddiad yn cael ystyriaeth gan y Cyngor. Byddai Cadeirydd y Cyngor, yr Is-Ganghellor, a Llywydd UMAber yn camu allan o'r cyfarfod i ddweud wrth y gwrthdystwyr am benderfyniad y Cyngor.

PENDERFYNWYD

5. Cyhoeddi Argyfwng Hinsawdd yn swyddogol ar ran Prifysgol Aberystwyth (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

28. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, yn ymgorffori drafft Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd 2018-19 (COU1920-044).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r manylion diweddaraf ynghylch iechyd a diogelwch, wedi'i seilio ar yr adroddiad llawnach a gyflwynwyd i'r Pwyllgor LI&Ch ar 07 Tachwedd 2019.
2. Gwnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru eu harchwiliadau arferol o lety preswyl y Brifysgol. Byddai gwybodaeth am y ffordd y byddai'r Brifysgol yn gweithredu ar unrhyw argymhellion a wnaed yn cael eu dosbarthu trwy e-bost yn dilyn y cyfarfod (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).
3. Roedd blwyddyn berthnasol Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd wedi ei had-drefnu i gyd-daro â'r flwyddyn academaidd. Roedd yr adroddiad felly yn cynnwys y cyfnod o 01 Awst 2018 i 31 Gorffennaf 2019. Cafodd ei ystyried yn fanwl yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor LI&Ch, lle mynegodd yr aelodau bryder am na chyflawnwyd rhai o'r camau gweithredu y dylid bod wedi rhoi sylw iddynt yn ystod 2018-19.
4. Adolygwyd yr Adroddiad Blynyddol yn fanwl gan yr aelodau, gan roi sylw penodol i berfformiad y sefydliad yng nghyswllt iechyd, diogelwch a'r amgylchedd yn ystod 2018-19, a gweithgarwch a gynlluniwyd ar gyfer 2019-20.

PENDERFYNWYD

5. Derbyn drafft Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd 2018-19 (**GWEITHREDU:** Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd).

29. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1920-043).

NODWYD

1. Roedd pedair prif adran i'r adroddiad: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a denu myfyrwyr; adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau; ac adroddiad o'r Senedd.
2. Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth fanwl i'r elfen denu myfyrwyr, gan ganolbwyntio'n benodol ar ymdrechion i ddenu myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr y Dystysgrif Addysg Uwchraddedig (TAR). Cafodd yr aelodau sicrwydd gan yr Is-Ganghellor bod camau priodol yn cael eu cymryd yng nghyswllt y ddwy garfan hyn o fyfyrwyr.
3. Pan gafodd ei benodi yn y gwanwyn 2018 roedd Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr wedi rhoi cyflwyniad i'r Cyngor ynglŷn â'i argraffiadau cychwynnol o weithgarwch y Brifysgol i ddenu myfyrwyr. Byddai'r aelodau'n croesawu cyflwyniad dilynol ynglŷn â hyn, ond cydnabuwyd y byddai'n well aros tan i'r ad-drefnu yn yr adran gael ei gwblhau'n llwyr.
4. Cafodd Darlith Gyhoeddus gan Yr Athro M Wynn Thomas ar Alwyn D Rees ei chynnal yn yr Hen Goleg ar 06 Tachwedd 2019. Trefnwyd y ddarlith yn rhan o'r paratodau i ailagor Pantycelyn ym mis Medi 2020. Llongyfarchwyd yr Is-Ganghellor ar draddodi ei hanerchiad i gloi'r achlysur yn llwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

30. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber) (COU1920-045).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.
2. Byddai hystingau o ymgeiswyr etholaeth Ceredigion yn Etholiad Cyffredinol San Steffan yn cael eu cynnal yn Undeb y Myfyrwyr ar 05 Rhagfyr 2019. Soniodd Llywydd UMAber wrth y Cyngor hefyd am ei ymgyrch i gael gorsaf bleidleisio i fyfyrwyr ar y campws.
3. Roedd Undeb y Myfyrwyr yn dal i drafod â'r Brifysgol ynglŷn â gwaith adnewyddu posibl i adeilad Undeb y Myfyrwyr. Sefydlwyd grŵp prosiect i ddatblygu cynigion am welliannau cyfalaf i Ganolfan y Celfyddydau, Undeb y Myfyrwyr, a'r piazza. Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol) yw arweinydd y grŵp a byddai'n dod â chynlluniau gerbron pan fyddent wedi'u datblygu'n ddigonol.

31. MATERION ARIANNOL

1. Diweddariad Ariannol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, Mark Godsell (COU1920-046).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad ddisgrifiad o berfformiad ariannol y Brifysgol ar ddiwedd Chwarter 1 2019-20 (30 Hydref 2019). Oherwydd amseriad cyfarfodydd nid oedd yr adroddiad yn barod mewn pryd i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (A&Ph) ar 07 Tachwedd 2019. Roedd y Cyngor felly'n cael copi cyflawn o'r adroddiad chwarterol, yn hytrach na'r crynodeb arferol.
2. Trafododd yr aelodau gynnwys yr adroddiad chwarterol, a dywedwyd wrthynt mai'r rhagolygon oedd y byddai'r sefydliad yn cyflawni'r alldro cyllidebol y cytunwyd arno am y flwyddyn academaidd gyfredol.

2. Y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell; a'r Cyfrifydd Rheolaethol, Mark Davies (COU1920-047).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf ynglŷn â'r arbedion a wnaed hyd yn hyn yng nghyswllt targedau'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (CGC); crynodeb o'r achosion busnes a gwblhawyd hyd yn hyn; a'r camau sy'n cael eu cymryd i gynnal adolygiad o'r hyn a ddysgwyd trwy'r broses.

32. MATERION STRATEGOL

1. Cynllun Strategol 2018-23 Dangosyddion Perfformiad Allweddol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio (COU1920-048).

NODWYD

Cyflwynai'r adroddiad bwyntiau data cyfredol yng nghyswllt y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunodd y Cyngor arnynt ar gyfer monitro cynnydd wrth gyflawni Cynllun Strategol y sefydliad.

2. Newidiadau i dargedau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio (COU1920-049).

NODWYD

1. Cynhaliwyd adolygiad pen 1-flwyddyn o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Brifysgol, a arweiniodd at gyfres o argymhellion i addasu rhai targedau ymestynnol, i newid perchnogaeth Weithredol rhai o'r Dangosyddion, ac i gyflwyno trefn godio newydd ar gyfer adrodd am y Dangosyddion.
2. Daeth yr adroddiad yn syth i'r Cyngor, sef y corff cyfrifol am fonitro perfformiad o'i gymharu â Chynllun Strategol y sefydliad, heb fynd trwy is-bwyllgor.

PENDERFYNWYD

3. Y dylai'r Pwyllgor LI&Ch archwilio'r newidiadau a argymhellwyd i dargedau'r Dangosyddion yn ei gyfarfod nesaf, cyn iddynt gael eu hystyried ymhellach gan y Cyngor ar 14 Chwefror 2020 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol; a Phennaeth Cynllunio).

3. Strategaeth Ymchwil ac Arloesi

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi), yn ymgorffori drafft o'r Strategaeth Ymchwil ac Arloesi 2019-24 (COU1920-050).

NODWYD

1. Roedd Strategaeth Ymchwil ac Arloesi newydd wedi cael ei datblygu, ac ymgynghorwyd â rhanddeiliaid allweddol yn ei chylch. Cafodd ei chynllunio i ategu Cynllun Strategol 2018-2023 y sefydliad, ac roedd yn nodi pum egwyddor er mwyn gwella diwylliant ymchwil y Brifysgol.
2. Trafododd yr aelodau gynnwys y Strategaeth ddrafft a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig yn fanwl. Ystyriwyd fersiwn gynharach gan y Senedd ar 13 Tachwedd 2019, lle'r oedd yr aelodau wedi argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Strategaeth ddrafft.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r Strategaeth Ymchwil ac Arloesi 2019-24 (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi)).

33. ADRODDIADAU DIWEDD BLWYDDYN

1. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (yn cynnwys Adroddiad Blynyddol a Barn yr Archwilwyr Mewnol)

DERBYNIWYD

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (AR&S) am 2018-19, yn ymgorffori Adroddiad a Barn Archwiliad Mewnol yr Archwilwyr Mewnol am 2018-19 (COU1920-051).

NODWYD

1. Cyflwynwyd i'r Cyngor adroddiad ar waith y Pwyllgor AR&S am y flwyddyn 2018-19 (hyd at ei gyfarfod diweddaraf) yn unol â *Chod Rheoli Ariannol CCAUC*, ac â *Chod Llywodraethu Addysg Uwch Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion*.
2. Roedd Deloitte, Archwilwyr Mewnol y Brifysgol, hefyd wedi cytuno ar eu Hadroddiad a'u Barn Blynyddol. Byddai hwn yn cael ei gyflwyno i CCAUC yn ystod mis Rhagfyr 2019 ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor AR&S ei hun.
3. Cafodd y ddau adroddiad eu hystyried gan y Pwyllgor AR&S ar 08 Tachwedd 2019. Paratowyd fersiwn ddiwygiedig o adroddiad y Pwyllgor ers hynny, er mwyn

ystyried trafodaethau'r cyfarfod diwethaf, a chafodd ei chymeradwyo gan y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor.

2. Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, yn ymgorffori esboniad am y cysoni rhwng y datganiad rheoli a'r datganiad statudol, drafft y Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2019, adroddiad diwedd blwyddyn yr Archwilwyr Allanol am 2018-19 (yn cynnwys copi o e-bost dilynol a anfonwyd at aelodau'r Pwyllgor AR&S ar 15 Tachwedd 2019), a'r Llythyr Cynrychiolaeth arfaethedig i'r Archwilwyr Allanol (COU1920-052).

NODWYD

1. Roedd y diffyg o £2.3 miliwn yn yr alldro gweithredol ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2019 ychydig yn well na'r gyllideb mewn diffyg y cytunwyd arni am y flwyddyn honno. Fodd bynnag, byddai diffyg cyfrifyddol o £40miliwn yn cael ei gofnodi o ganlyniad i asesiadau actiwaraid o rwymedigaethau yn y dyfodol (yn bennaf addasiadau pensiwn a cholli gwerth yn ôl y llyfrau). Nid oeddent yn ymwneud â gwario gwirioneddol.
2. Wrth ystyried drafft y Datganiadau Ariannol ar 07 a 08 Tachwedd 2019 yn eu trefn, roedd aelodau'r Pwyllgor A&Ph a'r Pwyllgor AR&S wedi pwysleisio'r angen, pan gyhoeddir y Datganiadau Ariannol, am esboniadau clir a chryno o'r bont rhwng canlyniadau gweithredol a chanlyniadau ariannol. Byddai esboniadau o'r fath yn ei gwneud yn haws i'r rhai nad oedd ganddynt brofiad ym maes cyfrifeg i ddeall yn well bod y Brifysgol wedi perfformio'n dda o'i gymharu â'r diffyg yn y gyllideb y cytunwyd arno am y flwyddyn.
3. Holodd yr aelodau ynglŷn â hyd y llythyr cynrychiolaeth, a'r angen i'r Cyngor i fod yn gwbl ymwybodol o'r cynrychiolaethau yr oedd yn eu gwneud i'r Archwilwyr Allanol.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019 (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).
5. Cymeradwyo'r Llythyr Cynrychiolaeth arfaethedig at yr Archwilwyr Allanol fel y'i ddrafftiiwyd (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

3. Datganiad Blynyddol Cynaliadwyedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, Mark Godsell (COU1920-053).

NODWYD

1. Mae'n rhaid i'r Brifysgol gytuno ar yr Adroddiad Blynyddol o Sicrwydd Cynaliadwyedd i'w gyflwyno i'r Cyngor Cyllido ynghyd â'r Datganiadau Ariannol

wedi'u harchwilio. Roedd yr adroddiad hwn yn dilyn fformat datgeliad safonol a awgrymir gan y Grŵp Strategaeth Cynaliadwyedd Ariannol, ac yn darparu mecanwaith addas i roi prawf ar statws y sefydliad fel 'busnes hyfyw'.

2. Roedd y Ffin Cynaliadwyedd a Buddsoddi wedi cynyddu o 7.8 i 8.6 y cant ers adroddiad y llynedd, ac yn dal yn uwch na'r targed o 7 y cant.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo drafft yr Adroddiad Blynyddol Sicrwydd Cynaliadwyedd (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell).
4. Datgeliad Caethwasiaeth Modern

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, Mark Godsell (COU1920-054).

NODWYD

1. Yn unol â gofynion Deddf Caethwasiaeth Modern (2015), roedd y Brifysgol wedi drafftio Datganiad Caethwasiaeth Modern a Masnachu Pobl am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2019. Roedd y datganiad drafft yn adeiladu ar y fersiwn a gymeradwywyd ac a gyhoeddwyd y flwyddyn flaenorol, a hefyd yn amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd gan y Brifysgol i gydymffurfio â Chod Ymddygiad Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.
2. Cafodd y Datganiad drafft am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2019 ei ystyried a'i gadarnhau gan y Pwyllgor LI&Ch ar 07 Tachwedd 2019.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r Datganiad Caethwasiaeth Modern a Masnachu Pobl arfaethedig (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell).
5. Datganiadau Asesu Ansawdd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Braddick, yn ymgorffori Datganiad Blynyddol UMAber (COU1920-055).

NODWYD

1. Mae'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru yn rhoi pwyslais ar swyddogaeth cyrff llywodraethu ar gyfer darparu sicrwydd ynglŷn â materion ansawdd a safonau. Rhaid i gyrrff llywodraethu gytuno ar Ddatganiad Blynyddol Asesu Ansawdd a'i gyflwyno i'r Cyngor Cyllido ym mis Rhagfyr 2019.
2. Cynlluniwyd yr adroddiad manwl a baratowyd gan y Gofrestrfa Academiaidd i roi'r dystiolaeth briodol i'r Cyngor ar gyfer cadarnhau wrth y Cyngor Cyllido ei fod yn fodlon bod y Brifysgol wedi cyflawni'i rhwymedigaethau yng nghyswllt cyfres o ddatganiadau ynglŷn â sicrwydd ansawdd, a'i bod yn parhau i wneud hynny.

3. Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth fanwl i'r adroddiad, a chroesawu'r camau a gymerwyd i gyflwyno baneri statws addas i'r adroddiad mewn ymateb i gais y Cyngor y llynedd.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo cyflwyno'r Datganiadau Blynyddol Asesu Ansawdd i CCAUC, ar sail yr holl sicrwydd a ddarparwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).
6. Adroddiad Blynyddol 'Prevent'

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Swyddog Parhad Busnes ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU1920-056).

NODWYD

1. O dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, rhaid i Sefydliadau Addysg Uwch roi sylw priodol i'r angen i rwystro pobl rhag cael eu denu gan derfysgaeth. Cyfeirir at hyn fel y 'Ddyletswydd Prevent' neu'r ddyletswydd i rwystro.
2. Mewn blynyddoedd blaenorol, lle bu'n rhaid i brifysgolion Cymru gyflwyno adroddiad naratif blynyddol i'r Cyngor Cyllido, roedd Fframwaith Monitro diwygiedig y Cyngor Cyllido - a ddaeth i rym ar 01 Awst 2019 - ddim ond angen derbyn Datganiad Atebolrwydd Blynyddol o'r Ddyletswydd Prevent wedi'i lofnodi gan Gadeirydd y Cyngor, a Datganiad Blynyddol o Ddata Monitro'r Ddyletswydd Prevent. Serch hynny, cafodd Adroddiad Blynyddol manwl ei baratoi er mwyn rhoi tystiolaeth briodol i'r Cyngor ar gyfer cytuno ar y datganiad angenrheidiol i'w gyflwyno i'r Cyngor Cyllido.
3. Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth fanwl i'r Adroddiad Blynyddol, a gofyn am sicrwydd bod ystyriaethau yn gysylltiedig â'r Ddyletswydd Prevent mewn grym wrth asesu ceisiadau am gymeradwyaeth moeseg ymchwil. Byddai Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) yn trafod hyn ymhellach â Chadeirydd y Panel Moeseg Ymchwil (**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr)).
4. Ystyriwyd drafft yr Adroddiad Blynyddol gan y Pwyllgor LI&Ch ar 07 Tachwedd 2019 lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD

5. Cymeradwyo cyflwyno Datganiadau Blynyddol Atebolrwydd a Data Prevent i CCAUC, ar sail yr holl sicrwydd a ddarparwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU**: Swyddog Parhad Busnes ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd).
7. Datganiad Blynyddol Cyflogau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol (COU1920-057).

NODWYD

1. Ers 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi disgwyl i brifysgolion gyhoeddi Datganiadau Blynyddol Cyflogau, yn unol ag egwyddorion cyffredin a'r safonau gofynnol a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2015, yng nghyswllt cyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.
2. Roedd y Brifysgol felly wedi datblygu Datganiad Blynyddol Cyflogau am 2018-19, i'w gymeradwyo gan y Cyngor ac yna'i gyhoeddi ar-lein. Cafodd y Datganiad ei ystyried a'i gadarnhau gan y Pwyllgor Ll&Ch ar 07 Tachwedd 2019.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol Cyflogau arfaethedig i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol, yn amodol ar sicrhau bod y penawdau a ddefnyddir yn briodol ac yn cyfateb i ofynion Llywodraeth Cymru (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; ac Ysgrifennydd y Brifysgol).
8. Adroddiad Blynyddol gan y Pwyllgor Taliadau

DERBYNIWYD

Adroddiad y Pwyllgor Taliadau am 2018-19, yn ymgorffori drafft y Datganiad Blynyddol cyhoeddus ar Daliadau Staff Uwch am flwyddyn academiaidd 2018-19 (COU1920-058).

NODWYD

1. I gydymffurfio â'r 'Cod Taliadau i Staff Uwch Addysg Uwch', cytunodd y Pwyllgor Taliadau i baratoi adroddiad blynyddol i'r corff llywodraethu yn crynhoi'r penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor ar ran y Cyngor, ac i roi sicrwydd i'r corff llywodraethu bod y Pwyllgor yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol. Byddai crynodeb o'r adroddiad hefyd yn cael ei wneud yn gyhoeddus yn rhan o'r Datganiad Blynyddol ar Daliadau Staff Uwch.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol arfaethedig ar Daliadau Staff Uwch am 2018-19 i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol, yn amodol ar gynnwys gwybodaeth am gyflog lluosol yr Is-Ganghellor am 2017-18 i hwyluso cymariaethau (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).
9. Datganiad Sicrwydd Blynyddol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori drafft y Datganiad Sicrwydd Blynyddol 2018-19 (COU1920-059).

NODWYD

1. Yn rhan o drefniadau adrodd blynyddol, mae'r Cyngor Cyllido'n mynnu bod pob sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru yn cyflwyno Datganiad Sicrwydd Blynyddol. Bob mis Tachwedd mae'r Cyngor Cyllido yn darparu'r templed i'w ddefnyddio, a

rhaid i'r datganiad gael ei lofnodi gan Gadeirydd y Cyngor a chan yr Is-Ganghellor, sef y Swyddog Atebol.

PENDERFYNWYD

2. Cymeradwyo cyflwyno'r Datganiad Blynyddol o Sicrwydd (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

34. DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) 2016 ADRODDIAD STATUDOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyngorwr Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, yn ymgorffori Adroddiad Cynnydd y Cynllun Bioamrywiaeth (COU1920-061).

NODWYD

1. Mewn ymateb i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, roedd y Brifysgol wedi paratoi a chyhoeddi cynllun gweithredu yn amlinellu sut y byddai'r sefydliad yn cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth, a hybu cydnerthedd. Cafodd y cynllun gweithredu ei gymeradwyo gan y Cyngor a'i gyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru ym mis Mehefin 2017.
2. Yn ôl y Ddeddf, rhaid i'r Brifysgol gyhoeddi adroddiad erbyn mis Rhagfyr 2019 yn crynhoi'r hyn a wnaed yng nghyswllt y cynllun gweithredu y cytunwyd arno. Ystyriwyd drafft yr adroddiad gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (A&Ph) ar 07 Tachwedd 2019 lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo.
3. Cymerwyd camau breision ymlaen ar y rhan fwyaf o'r amcanion y cytunwyd arnynt yn 2017, er bod ad-drefnu Gweithrediaeth y Brifysgol y llynedd yn golygu bod angen gwneud yn glir ymhle mae'r cyfrifoldeb ynglŷn â gwella bioamrywiaeth a chadwraeth.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r adroddiad cynnydd i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol (**GWEITHREDU:** Cyngorwr Amgylcheddol a Chynaliadwyedd).

35. MATERION POLISI

1. Rheoliadau Ariannol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; a'r Cyfrifydd Ariannol Dros-dro Alan Graham; yn ymgorffori diwygiadau a gynigiwyd i'r Rheoliadau Ariannol (COU1920-062).

NODWYD

1. Diwygiwyd Rheoliadau Ariannol y Brifysgol ddiwethaf ym mis Mai 2017. Gwnaed arolwg llawn bellach ac roedd newidiadau'n cael eu cynnig i adlewyrchu strwythurau mewnol diwygiedig yn y sefydliad, ac i gyd-daro ag arferion gorau cyfredol.
2. Byddai'r adran ar Reoli'r Trysorlys, a fu cyn hyn yn rhan o'r Rheoliadau Ariannol, yn cael ei gwneud yn bolisi annibynnol.

3. Cafodd y diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Ariannol eu hystyried a'u cadarnhau gan y Pwyllgorau A&Ph ac AR&S ar 07 ac 08 Tachwedd 2019 yn y drefn honno.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r newidiadau a gynigiwyd i'r Rheoliadau Ariannol (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

2. Polisi Rheoli'r Trysorlys

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; a'r Cyfrifydd Ariannol Dros-dro Alan Graham; yn ymgorffori drafft Polisi Rheoli'r Trysorlys (COU1920-063).

NODWYD

1. Cynigiwyd y dylid diwygio testun yr adran ar Reoli'r Trysorlys, a fu cyn hyn yn rhan o'r Rheoliadau Ariannol, a'i gwneud yn bolisi annibynnol.
2. Cafodd y Polisi arfaethedig ei ystyried a'i gadarnhau gan y Pwyllgorau A&Ph ac AR&S ar 07 ac 08 Tachwedd 2019 yn y drefn honno. Yn dilyn adborth gan aelodau yn y cyfarfodydd hynny, paratowyd drafft diwygiedig i'w ystyried gan y Cyngor.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo Polisi Rheoli'r Trysorlys (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

3. Ail-ddynodi Cronfeydd Gwaddol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfrifydd Ariannol Dros dro Alan Graham (COU1920-064).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion am y broses i ail-ddynodi cronfeydd gwaddol Grŵp 2 - y cronfeydd lle nad oedd digon o wybodaeth i ddweud a ddylid ystyried eu bod yn 'gyfyngedig' ai peidio.
2. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor A&Ph ar 07 Tachwedd 2019 lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r hyn a gynigiwyd.
3. Dywedwyd wrth yr aelodau er bod camau'n cael eu cymryd i ail-ddynodi rhai cronfeydd gwaddol i fod yn 'ddigyfyngiad' na fyddai newid ar y cyfan i'r defnydd a wneir gan y Brifysgol o unrhyw incwm o'r gwaddolion hynny.

PENDERFYNWYD

4. Cytuno i ofyn am gadarnhad gan y Comisiwn Elusennau i ail-ddynodi Cronfa Ystâd Gogerddan yn gronfa 'ddigyfyngiad' (**GWEITHREDU:** Cyfrifydd Ariannol Dros dro Alan Graham).

4. Strategaeth Buddsoddi AUPAS

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfrifydd Ariannol Dros dro Alan Graham (COU1920-065).

NODWYD

1. Er mwyn lleihau anwadalwch y symudiadau yng ngwerthoedd buddsoddiadau Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth, roedd ymddiriedolwyr y cynllun yn cynnig newid i'w Strategaeth Buddsoddi. Yn ôl y gyfraith rhaid i newid o'r fath gael ei gymeradwyo gan y cyflogwr, sef y Brifysgol.
2. Roedd y diwygiadau arfaethedig i'r Strategaeth Buddsoddi wedi eu nodi yn yr adroddiad. Cafodd y newidiadau eu cadarnhau ar 15 Ionawr 2019 gan Weithrediaeth y Brifysgol, a gynigiodd hefyd y dylid annog Ymddiriedolwyr y Cynllun i ystyried tynnu buddsoddiadau allan o danwydd ffosilau. Cymeradwywyd y cynnig hefyd gan y Pwyllgor A&Ph ar 07 Tachwedd 2019.

PENDERFYNWYD

3. Rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i'r newidiadau b Bolisi Buddsoddiadau AUPAS ar ran y Brifysgol, fel cyflogwr, ac annog Ymddiriedolwyr y Cynllun i ystyried tynnu buddsoddiadau o danwydd ffosilau (**GWEITHREDU**: Cyfrifydd Ariannol Dros dro Alan Graham).

36. **PROSIECTAU MAWR**

1. Yr Hen Goleg

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU1920-066).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion am gynnydd y prosiect, gan roi sylw arbennig i: ddatblygiad y prosiect; Cronfa Dreftadaeth y Loteri a cheisiadau eraill; a sefyllfa gyfredol cyllid cyfatebol.
2. Byddai cais yr ail rownd yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Cymru Cronfa'r Loteri ar 26 Tachwedd 2019, cyn cael ei ystyried gan Bwyllgor Iefel y DU ar 17 Rhagfyr, lle byddai penderfyniad terfynol yn cael ei wneud. Erbyn y cyfarfod terfynol hwnnw, byddai ar Gronfa'r Loteri angen ymrwymiad ysgrifenedig i ddweud y byddai'r Brifysgol yn tanysgrifennu unrhyw ddiffyg yng nghyfanswm yr arian a godir, i sicrhau y byddai'r cyllid cyfatebol angenrheidiol ar gael.
3. Hefyd, roedd y Brifysgol yn aros am ganlyniadau ei cheisiadau i Lywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru am gymorth ariannol tuag at y costau cyfalaf. Disgwylid yr ymatebion yn ystod mis Rhagfyr 2019.
4. Roedd fersiwn gynharach o'r adroddiad wedi'i ystyried gan y Pwyllgor A&Ph ar 07 Tachwedd 2019, lle pwysleisiodd yr aelodau'r angen am ymgyrch godi arian

lwyddiannus yn targedu unigolion, er mwyn lleihau cyfraniad y Brifysgol. Gwnaed peth cynnydd pellach ers hynny yn hyn o beth.

PENDERFYNWYD

5. Cytuno i danysgrifennu unrhyw ddiffyg yn y cyllid cyfalaf, hyd at uchafswm o £7.846m, i gynnwys y cyfraniad y cytunodd y Cyngor arno'n flaenorol tuag at y prosiect (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol).
6. Pe byddai'r Brifysgol yn cael canlyniad ffafriol gan Gronfa'r Loteri, Llywodraeth Cymru, a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, bod y Cyngor yn cytuno i'r Brifysgol symud y prosiect yn ei flaen ar unwaith i osgoi oedi diangen (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol).
7. Y dylid gwneud pob ymdrech i gynyddu'r arian a dderbynnir gan unigolion, er mwyn sicrhau bod cyfraniad y Brifysgol ei hun tuag at y costau cyfalaf yn cael ei leihau cymaint â phosibl (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol).

2. Meddygaeth Filfeddygol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) (COU1920-067).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf am ddatblygiad y cynllun gradd Meddygaeth Filfeddygol (BVetSci) a ddarperir ar y cyd rhwng y Brifysgol a'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol. Atodwyd achos busnes y prosiect i'r adroddiad, a dyma'r tro cyntaf y cafodd dogfen o'r fath ei chyflwyno i'r Cyngor ers i'r prosiect ddod i'w ffurf gyfredol o fod yn radd gyfun.
2. Cafodd fersiwn ar wahân o'r adroddiad, yn ogystal â chanlyniad yr ymweliad safle a wnaed gan gynrychiolwyr y Brifysgol â champysau'r Coleg milfeddygol ym mis Chwefror 2019, eu hystyried gan y Senedd ar 02 Hydref 2019. Yn y cyfarfod hwnnw roedd aelodau'r Senedd wedi cymeradwyo'r cynllun gradd gyfun o safbwynt academiaidd.
3. Cafodd achos busnes y prosiect ei ddatblygu ar sail bwyllog, ac nid oedd yn ystyried y cyfleoedd y byddai'r fenter yn eu cynnig o ran cynyddu cyllid ymchwil a chyllid arall. Roedd cyfrifiad Gwerth Presennol Net y prosiect yn dynn felly, er y cydnabuwyd bod y Brifysgol yn bwriadu symud y prosiect yn ei flaen am resymau dinesig yn ogystal â rhesymau ariannol.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r achos busnes (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr)).

3. Darpariaeth Nyrsio a Gofal Iechyd Perthynol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); a'r Uwch Swyddog Prosiectau (COU1920-068).

NODWYD

1. Yn rhan o'i chenhadaeth ddinesig, mae'r Brifysgol yn awyddus i ganfod ffyrdd o ddiwallu anghenion gofal iechyd y Canolbarth trwy gynnig mwy o gyfleoedd hyfforddi ac addysg, a chynorthwyo gyda datblygiad gyrfaoedd. Yn y cyd-destun hwn, roedd y Brifysgol yn bwriadu gweithio gyda byrddau iechyd lleol i ddatblygu darpariaeth addysg yn Aberystwyth, yn ogystal â chynorthwyo i ddarparu addysg feddygol gyda'r byrddau iechyd lleol a phrifysgolion eraill.
2. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf am y datblygiadau, ac fe'i trafodwyd yn fanwl gan yr aelodau.

37. ENWEBIADAU AM RADDAU ER ANRHYDEDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-037).

NODWYD

1. Ar 25 Hydref 2019, cyfarfu'r Grŵp Graddau er Anrhydedd i ystyried enwebiadau am Raddau er Anrhydedd y Brifysgol. Amlinellai'r adroddiad argymhellion y Pwyllgor ynglŷn â dyfarnu Graddau er Anrhydedd.
2. Cafodd argymhellion y Grŵp eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor LI&Ch ar 07 Tachwedd 2019, a chan y Senedd ar 13 Tachwedd 2019.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r enwebiadau a gynigiwyd am Raddau er Anrhydedd (**GWEITHREDU**: Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor).

38. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU1920-070);
2. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU1920-071); a
3. Crynodeb o'r cwynion a dderbyniwyd yn gysylltiedig â'r Gymraeg (COU1920-072).

NODWYD

4. Crynodeb o'r cwynion a dderbyniwyd yn gysylltiedig â'r Gymraeg

Dywedwyd wrth yr aelodau bod y Brifysgol wedi derbyn canlyniadau tair cwyn gan Gomisiynydd y Gymraeg: cafodd y ddwy gyntaf a restrir yn yr Adroddiad eu cadarnhau, ond barnwyd nad oedd digon o dystiolaeth i gadarnhau'r drydedd.

5. Cynnwys yr adroddiadau eraill a gyflwynwyd er gwybodaeth.

39. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys y canlynol (COU1920-073):

1. Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (07 Tachwedd 2019);
2. Pwyllgor Taliadau (07 Tachwedd 2019);
3. Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (07 Tachwedd 2019);
4. Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (08 Tachwedd 2019); a
5. Y Senedd (13 Tachwedd 2019).

NODWYD

6. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r is-bwyllgorau.

40. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL

1. Ffarwelio

Y cyfarfod hwn o'r corff llywodraethu fu'r olaf i Gwerfyl Pierce Jones am ei bod yn rhoi'r gorau i fod yn Ddirprwy Ganghellor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor wrth i'w chyfnod ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2019. Talodd Cadeirydd y Cyngor deyrnged i gyfraniad anferth Gwerfyl Pierce Jones i'r Brifysgol yn ystod ei thymor ar y corff llywodraethu.